## PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL

## 7 MAWRTH 2024

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 7 Mawrth 2024.

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Y Cynghorydd Richard Jones (Cadeirydd)** |
| | Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Bill Crease, Alasdair Ibbotson, Gina Maddison, Allan Marshall, Vicky Perfect, Kevin Rush, Jason Shallcross, Sam Swash, Linda Thomas ac Arnold Woolley |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr: David Coggins Cogan, Dave Hughes, Christine Jones, Billy Mullin, Andrew Parkhurst ac Ian Roberts fel arsylwyr |
| **YMDDIHEURIAD:** | Rheolwr Corfforaethol y Rhaglen Gyfalaf ac Asedau |
| **CYFRANWYR:** | Y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant a Chymunedau Cryf gan gynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael); Y Prif Weithredwr; Y Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Swyddog Gweithredol Strategol |
| | Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Swyddog Datblygu Gwerth Cymdeithasol ar gyfer cofnod rhif 81 |
| | Y Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid a Matthew Harris, Pennaeth Safonau Cwynion, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer cofnod rhif 82 |
| | Rheolwyr Cyllid Strategol ar gyfer cofnodion rhif 84 a 86 |
| | Cyfarwyddwr Rheoli (NEWydd) ar gyfer cofnod rhif 87 |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a'r tîm |

### 76. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Yn dilyn cyngor gan y Prif Swyddog (Llywodraethu), datganodd y Cynghorydd Bernie Attridge gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ar eitem 7 ar y rhaglen, Adroddiad Cydymffurfiaeth Hawliau Gwybodaeth. Gadawodd yr ystafell ar gyfer yr eitem honno.

### 77. COFNODION

Ar gofnod rhif 74, gofynnodd y Cadeirydd i'r sylwadau a wnaed gan y Rheolwr Corfforaethol (Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol) ar raglen Hyfforddeion

Sir y Fflint gael ei gynnwys, yn benodol, y byddai'r cynnig yn cael ychydig o effaith gan y byddai'r hyfforddeion hynny heb ddigon o adnoddau yn ystod y cyfnod.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiad, bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2024 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

**78. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU**

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad am y camau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol. Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

**79. Y RHAGLEN WAITH**

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried, ac addasu os oedd angen, Rhaglen Waith y Pwyllgor. Cefnogwyr yr argymhellion yn yr adroddiad, yn amodol ar gynnwys adroddiad ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2025/26.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith, fel y'i diwygiwyd; a

(b) Rhoi awdurdod i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

**80. AMRYWIO TREFN Y RHAGLEN**

Cytunwyd amrywio trefn y rhaglen i ddod ag eitem 8 ar y rhaglen ymlaen (Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Werth Cymdeithasol) er mwyn galluogi siaradwyr i fod yn bresennol.

**81. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR WERTH CYMDEITHASOL (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) a'r Swyddog Gweithredol Strategol adroddiad a oedd yn amlinellu data perfformiad ar gyfer chwe mis olaf 2022/23 a chwe mis cyntaf 2023/24, ynghyd â chrynodeb o'r meysydd canolbwyntio o fewn y rhaglen gwerth cymdeithasol ar gyfer 2024/25.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorwyr Sam Swash ac Alasdair Ibbotson, bydd ymateb yn cael ei rannu gyda'r holl Aelodau presennol ar a allai gwaith ar werth cymdeithasol gael ei danseilio gan Barth Buddsoddi Gogledd Ddwyrain Cymru a chymhellion treth.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r perfformiad cadarnhaol a gyflawnwyd mewn perthynas â chreu gwerth cymdeithasol ar gyfer chwarter tri a phedwar yn y flwyddyn ariannol 2022/23, yn ogystal â dau chwarter cyntaf 2023/24;

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r camau nesaf ar gyfer y rhaglen gwerth cymdeithasol, fel yr amlinellir yn yr adroddiad; ac

(c) Er mwyn alinio adroddiadau perfformiad i flwyddyn ariannol, mae'r Pwyllgor yn cefnogi newid yn yr amserlen adrodd, gyda'r adroddiad perfformiad gwerth cymdeithasol blynyddol yn cael ei gyflwyno ym Mehefin bob blwyddyn.

## 82. LLYTHYR BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR GYFER 2022-23 A CHWYNION YN ERBYN CYNGOR SIR Y FFLINT YN YSTOD HANNER CYNTAF 2023-24 (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid a Phennaeth Safonau Cwynion, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru adroddiad ar berfformiad blynyddol y Cyngor mewn perthynas â'r cwynion a dderbyniwyd rhwng 1 Ebrill 2022 - 31 Mawrth 2023, ynghyd â throsolwg o'r cwynion a dderbyniwyd gan bob portffolio rhwng 1 Ebrill 2023 - 30 Medi 2023. Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cefnogi.

Yn ôl cais gan y Cynghorydd Alasdair Ibbotson, bydd manylion pellach yn cael eu rhannu ar yr amrywiadau rhwng nifer y cwynion agored ac yn weddill, a'r rhai wedi cau ar ôl deg diwrnod, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi perfformiad blynyddol y Cyngor mewn perthynas â'r cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod 2022-23;

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi perfformiad hanner blwyddyn (2023-24) y Cyngor o ran cwynion a wnaed yn erbyn gwasanaethau yn unol â'r weithdrefn bryderon a chwynion; a

(c) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r blaenoriaethau a amlinellwyd ym mharagraff 1.24.

## 83. CYDYMFFURFIAETH HAWLIAU GWYBODAETH (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad gyda'r wybodaeth am berfformiad mewn perthynas â chydymffurfiaeth â thargedau ymateb ar gyfer Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Hawliau Unigolion yn chwe mis cyntaf 2023/24.

Yn ôl cais y Cynghorydd Jason Shallcross, bydd y data a ddangosir ym

mharagraff 1.03 yr adroddiad yn adlewyrchu'r canran ar gyfer bob Sir. Nodwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei drefnu ddwywaith y flwyddyn ar Raglen Waith y Pwyllgor.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwelliannau a wnaed hyd yn hyn ers 2020/21; a

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi'r camau arfaethedig i wella perfformiad yn y meysydd hynny lle mae amseroedd ymateb yn is na'r cyfartaledd gofynnol o 80%.

## 84. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2023/24 (MIS 10) (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol adroddiad ar sefyllfa monitro cyllideb refeniw 2023/24 ym mis 10 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai, cyn i'r Cabinet ei hystyried.

Yn ôl cais gan y Cynghorydd Alasdair Ibbotson, byddai mwy o fanylion yn cael eu rhannu gydag Aelodau ar yr ymgynghoriad gydag Undebau Llafur a chynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â Chyfarpar Diogelu Personol o dan y Gwasanaethau Stryd a Chludiant (darpariaeth gwasanaeth) a ddangosir fel amrywiad i'r gyllideb yn Atodiad 2. Cytunwyd hefyd y byddai swyddogion yn dod a'r mater i sylw Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi. Rhannodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y wybodaeth ddiweddaraf ar Setliad Terfynol Llywodraeth Leol a fydd yn cael ei rannu i holl Aelodau.

Cefnogwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad ynghyd â'r cynnig ychwanegol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 (mis 10), fod y sylwadau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet pan fydd yn ystyried yr adroddiad; a

(b) Bod llythyr yn cael ei anfon i'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru i amlygu effaith prinder llety fforddiadwy yn y sector yn y sector rhentu preifat ar gyllid yr awdurdodau lleol.

## 85. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod gan yr ystyrir bod yr eitem ganlynol wedi ei heithrio yn rhinwedd paragraff 14 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**86. CAMBRIAN AQUATICS**

Cyflwynodd y Swyddog Gweithredol Strategol adroddiad ar Drosglwyddo Ased Cymunedol, Cambrian Aquatics.

Yr argymhelliad oedd i'r Pwyllgor ystyried cynnwys yr adroddiad a rhoi adborth i'r Cabinet fel bo'n briodol.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad, bod y Pwyllgor yn rhoi'r adborth canlynol i'r Cabinet:

(a) Bod y Pwyllgor yn cydnabod gwerth strategol y baddonau, o ystyried agosatrwydd Cei Connah i Afon Dyfrdwy a'i aber llanwol;

(b) Bod y Cabinet yn ystyried faint sydd wedi cael ei arbed trwy gydol oes y trosglwyddiad ased ac a allai cyfran o hynny fod ar gael i Cambrian Aquatics; a

(c) Bod cyfnod pellach yn cael ei ganiatáu i Aelodau Lleol weithio gyda Cambrian Aquatics i weld a ellir gwella ei berfformiad ariannol ac a oes datrysiad amgen yn hytrach na chau.

**87. CYNLLUN BUSNES NEWYDD 2024/25**

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr NEWydd a'r Swyddog Gweithredol Strategol adroddiad i geisio cefnogaeth ar gyfer Cynllun Busnes Arlwyo a Glanhau NEWydd Cyf 2024/25. Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar gynnwys Cynllun Busnes NEWydd 2024/25, sy'n cynnwys rhagamcanion ariannol, cyfleoedd busnes posibl, amcanion strategol a blaenoriaethau busnes, ynghyd â risgiau a mesurau lliniaru a nodwyd.

**88. TREFNIADAU GYDAG ARLWYO A GLANHAU NEWYDD CYF**

Cyflwynodd y Swyddog Gweithredol Strategol adroddiad i geisio cefnogaeth ar gyfer cynnig mewn perthynas â threfniadau yn y dyfodol rhwng y Cyngor ac Arlwyo a Glanhau NEWydd Cyf. Yr argymhellion oedd ystyried a gwneud sylwadau ar y cynigion.

Yn ôl y gofyn, byddai manylion yr aelodau Bwrdd newydd yn cael eu rhannu gyda'r Aelodau ar ôl y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar y cynnig am gontract newydd rhwng y Cyngor ac Arlwyo a Glanhau NEWydd Cyfyngedig;

(b) Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar delerau arfaethedig y contract newydd, fel yr amlinellir yn yr adroddiad;

(c) Bod ystyriaeth yn cael ei roi yn y trafodaethau contract i'r posibilrwydd o drosglwyddo unrhyw endidau masnachol y mae'r Cyngor yn ymdrin â nhw; a

(d) Cyn dyfarnu contract hirdymor, cyflawni dadansoddiad o gostau a buddion symud y gwasanaeth yn fewnol.

**89. <u>AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD HEFYD YN BRESENNOL</u>**

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 1.52pm)

**Y Cadeirydd**

………………………………………………….

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell weddarllediadau yma: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home